

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag archwilio, paratoi a gosod **gwasanaethau a systemau** simneiau metel sydd wedi'u huno'n fecanyddol, dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, yn unol â'r **ardal waith a gweithdrefnau'r sefydliad** sy'n cyfateb i'r **dogfennau a'r manylebau** statudol a deddfwriaethol presennol neu'n rhagori arnynt

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio ym maes galwedigaethol Simneiau a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

Mae modd gweld disgrifiad o'r termau sydd mewn testun trwm yn y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon yn yr Eirfa, y dylid ei defnyddio fel pwynt cyfeirio

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Dehongli gwybodaeth

P1 dehongli'r wybodaeth am y gwaith a'r adnoddau i gadarnhau ei bod yn berthnasol ar gyfer y canlynol:

- **dogfennau a manylebau**
- gwasanaethau a systemau
- lluniadau
- rhestrau
- gwybodaeth y contract
- arolygon cyn gosod
- asesiadau risg
- datganiadau dull

Arferion gwaith diogel

P2 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau swyddogol a **gweithdrefnau'r sefydliad** i wneud eich gwaith a chynnal arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol am y canlynol:

- dulliau gweithio
- defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel, sy'n berthnasol i'r dasg sy'n cael ei chyflawni a'r amgylchedd gwaith
- defnyddio cyfarpar mynediad a phlatfformau gweithio'n ddiogel
- defnyddio, storio a thrin deunyddiau, offer a chyfarpar yn ddiogel
- risgiau penodol i iechyd gan gynnwys iechyd meddwl
- risgiau penodol sy'n gysylltiedig â deunyddiau sy'n cynnwys asbestos
- risgiau penodol sy'n gysylltiedig â llwch silica, morterau a deunyddiau selio

Dewis adnoddau

P3 dewis faint o adnoddau sydd eu hangen ac ansawdd angenrheidiol yr adnoddau hynny ar gyfer y dulliau gweithio:

- deunyddiau, cydrannau, gosodiadau, angorau a chlymau
- offer a chyfarpar
- cyfarpar mynediad

Lleihau'r risg o ddifrod

P4 cydymffurfio â **gweithdrefnau'r sefydliad** i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas drwy:

- diogelu'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod
- cadw'r **ardal waith** yn ddiogel, yn glir ac yn daclus
- gwaredu gwastraff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol ac arferion gorau'r diwydiant

Bodloni manyleb y contract

P5 cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir yn y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â'r gofynion drwy'r canlynol:

- dangos sgiliau gwaith i fesur, marcio, ffitio, gorffen, lleoli a gosod yn ddiogel
- defnyddio a chynnal a chadw offer llaw ac offer pŵer a chyfarpar ategol
- gosod strwythurau simneiau metel sydd wedi'u huno'n fecanyddol yn fewnol neu'n allanol yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr

Amser a neilltuwyd

P6 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd yn unol â **gweithdrefnau'r sefydliad**, y rhaglen waith ac i ddiwallu anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cleient

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

P1 Dehongli gwybodaeth

K1 pam mae gweithdrefnau'r sefydliad wedi cael eu datblygu i roi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith

K2 mathau o wybodaeth, beth yw eu ffynhonnell a sut i'w dehongli mewn perthynas â:

• **dogfennau a manylebau**

- lluniadau
- rhestrau
- gwybodaeth y contract
- arolygon cyn gosod
- asesiadau risg
- datganiadau dull

K3 yr amrywiaeth o wasanaethau, offer a systemau digidol perthnasol a sut maent yn cael eu defnyddio

K4 pwysigrwydd **gweithdrefnau'r sefydliad** o ran rhoi gwybod am broblemau a'u datrys â'r wybodaeth a pham mae'n bwysig eu dilyn

P2 Arferion gwaith diogel

K5 gwybodaeth ar gyfer deddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol a sut mae'n cael ei chymhwyso

K6 y mathau o gyfarpar diffodd tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio o ran dŵr, CO2, ewyn, powdr

K7 sut dylid ymateb i argyfyngau a rhoi gwybod amdanynt yn unol ag awdurdodiad y sefydliad a sgiliau personol o ran y canlynol:

- tanau, gollyngiadau ac anafiadau
- argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol
- nodi deunyddiau sy'n cynnwys asbestos a rhoi gwybod amdanynt

K8 gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol, mewn perthynas â'r canlynol:

- gweithiwr
- safle
- gweithle
- cerbydau
- cwmni
- cwsmer

Gosod Simneiau Metel

- y cyhoedd
- galwedigaethau eraill yn y gweithle

K9 sut mae rhoi gwybod am risgiau a pheryglon a nodwyd gan y canlynol:

- dulliau gweithio
- asesiad risg
- asesiad personol
- gwybodaeth dechnegol gweithgynhyrchwyr
- rheoliadau statudol
- canllawiau swyddogol
- Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

K10 y gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny

K11 pam, pryd a sut dylid defnyddio'r cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch a nodir gan egwyddorion atal mewn perthynas â'r canlynol:

- mesurau diogelu ar y cyd
- cyfarpar diogelu personol (PPE)
- cyfarpar diogelu anadlol (RPE)
- awyru lleol sy'n gwacáu mygdarth (LEV)

K12 sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol wrth ddellio â damweiniau posibl, peryglon i iechyd a'r amgylchedd o ran gweithio:

- yn y gweithle
- dan lefel y ddaear
- mewn mannau cyfyng
- mewn mannau uchel
- gydag offer a chyfarpar
- gyda deunyddiau a sylweddau
- wrth symud a storio deunyddiau drwy eu codi a'u cario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol

P3 Dewis adnoddau

K13 pam mae nodweddion, ansawdd, defnydd, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau yn bwysig, a sut dylid cywiro diffygion

K14 **gweithdrefnau'r sefydliad** ar gyfer dewis adnoddau, pam maen nhw wedi cael eu datblygu a sut mae eu defnyddio

K15 sut mae cadarnhau bod yr adnoddau a'r deunyddiau'n cydymffurfio â'r fanyleb

K16 sut dylid defnyddio'r adnoddau a sut mae rhoi gwybod am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ynglŷn â'r canlynol:

Gosod Simneiau Metel

- cydrannau simneiau metel
- rhwystrau tân wedi'u hawyru
- llewys waliau
- deunyddiau mynediad a gosod mewn blychau
- deunyddiau uno
- deunyddiau selio
- ffitiadau
- angorau
- clymau
- gosodiadau
- offer llaw
- cyfarpar

K17 sut mae nodi'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a'r dulliau gweithio a sut mae goresgyn y rhain

K18 sut mae cyfrifo niferoedd, hyd a gwastraff

P4 Lleihau'r risg o ddifrod

K19 sut mae diogelu gwaith a'r ardal o'i gwmpas rhag difrod a phwrpas diogelu rhag gweithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw a sut mae lleihau difrod i adeiledd presennol yr adeilad

K20 pam a sut mae'n rhaid gwaredu gwastraff yn ddiogel yn unol â'r canlynol

- cyfrifoldebau amgylcheddol
- **gweithdrefnau'r sefydliad**
- gwybodaeth gweithgynhyrchwyr
- rheoliadau statudol
- canllawiau swyddogol

K21 pam mae'n bwysig cynnal **ardal waith** ddiogel, glir a thaclus

P5 Bodloni manyleb y contract

K22 sut mae'r dulliau gweithio i fodloni'r fanyleb yn cael eu cyflawni a sut mae problemau'n cael eu nodi a'u hadrodd drwy ddefnyddio gwybodaeth i sicrhau arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol sy'n ymwneud â'r dull a'r maes gwaith mewn perthynas â'r canlynol:

- sut mae gosod a datgymalu strwythurau simneiau metel sydd wedi'u huno'n fecanyddol yn fewnol ac yn allanol
- sut mae darparu cynhaliad dros dro a pharhaol
- pam ei bod yn bwysig darparu cynhaliad dros dro a pharhaol
- pwysigrwydd dynodiad y fflw a sut mae gwneud yn siŵr bod y fflw yn gydnaws â'r darn o **offer** a sut bwriedir ei ddefnyddio
- pwysigrwydd sut mae'r fflw yn mynd drwy loriau, waliau mewnol ac allanol, gan gynnwys rhwystrau tân wedi'u hawyru a llewys waliau
- pam ei bod yn bwysig bodloni'r gofyniad pellter rhwng deunyddiau llosgadwy gan

Gosod Simneiau Metel

gynnwys cadw pellter rhwng blychau a chewyll

- pam ei bod yn bwysig lleihau faint o blygiadau sydd yn y system
- pam ei bod yn bwysig dewis y diamedr cywir ar gyfer y fflw
- pam ei bod yn bwysig bod y fflw yn dod i ben yn y lleoliad priodol
- sut mae darparu mynediad ar gyfer archwilio a chynnal a chadw
- sut mae paratoi i wella ac atgyweirio strwythur yr adeilad
- sut mae gosod angorau a chlymau
- sut mae gweithio gyda chyfarpar codi ac ategolion
- perthnasedd asesiad o arwyddocâd a sut i adnabod gofynion penodol ar gyfer strwythurau o ddiddordeb arbennig, adeiladwaith traddodiadol, adeiladau anodd eu trin ac arwyddocâd hanesyddol
- sut mae gweithio'n ddiogel gyda pheiriannau ac offer, o'u cwmpas ac yn agos iawn atynt
- sut mae nodi a bodloni gofynion ansawdd ar gyfer gosod
- sut i ddefnyddio offer llaw, offer pŵer a chyfarpar
- sut mae gweithio mewn mannau uchel gan ddefnyddio cyfarpar mynediad
- sut a pham mae angen i'r gweithiwr sicrhau bod yr offer llaw a'r offer pŵer a'r cyfarpar ategol yn cael eu cynnal a'u cadw

K23 pwysigrwydd gwaith tîm a chyfathrebu, **gweithdrefnau'r sefydliad** o ran ymddygiad ar y safle a sut mae rhoi gwybod am ymddygiad amhriodol ar y safle

K24 anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â gosod simneiau metel

P6 Amser a neilltuwyd

K25 y rhaglen ar gyfer gwneud y gwaith, gan gynnwys yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd a pham y dylid cadw at derfynau amser

K26 y mathau o siartiau cynnydd, amserlenni ac amseroedd a amcangyfrifwyd, a **gweithdrefnau'r sefydliad** ar gyfer rhoi gwybod am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith

Geirfa

Gweithdrefnau'r sefydliad

Y Sefydliad

Yswiriant - atebolrwydd cyflogwyr, cynnyrch a chyhoeddus, indemniad proffesiynol
Dogfennau'r cwmni
contract gwaith, cynllun rheoli diogelwch, dylunio a rheoli adeiladu, polisi
amgylcheddol, gweithdrefn gwyno, polisi diogelwch a phreifatrwydd gwybodaeth,
strwythur rheoli

Ardal waith

Yr ardal lle bydd y cyfarpar yn cael eu gosod a'r holl ardaloedd y bydd y gwaith yn
effeithio arnynt, gan gynnwys nodweddion topograffig ac amodau meteorolegol

Gwasanaethau a systemau

Systemau simneiau a ffliwiau, offer, systemau awyru a chyfleustodau priodol

Dogfennau a manylebau

Cyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwyr ar gyfer yr holl gyfarpar sy'n rhan o'r gwaith
cynlluniau'r pensaer a dogfennau penodol i'r safle
rheolau a rheoliadau adeiladu lleol
Deddfwriaeth waliau cydrannol
Deddf Aer Glân
Deddf yr Amgylchedd
Parthau rheoli mwg
Datblygu a ganiateir
Ardaloedd cadwraeth
Statws treftadaeth
Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
anghenion penodol tanysgrifenwyr yswiriant
Rheoliadau adeiladu yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig ADJ ond hefyd ADA, ADB,
ADF, ADL ac AD7
Llawlyfr Technegol Safonau Adeiladu yn yr Alban
Llyfrynnau Technegol yng Ngogledd Iwerddon, yn enwedig B, D, E, F1, F2, K ac L
BSEs, yn enwedig 8303, 15287, 1856, 16510, 1251, 3376, 4834, 12815, 13229,
13240, 15250

Noder: Mae'n bosibl y bydd dogfennau technegol a BSEN yn cael eu tynnu'n ôl neu eu
disodli yn ystod rhaglenni adolygu. Felly mae'n bwysig gwirio pa mor gyfredol a dilys
yw pob dogfen o'r fath i sicrhau eich bod yn cyfeirio at y fersiwn gywir.

Offer

Offer

Offer llosgi tanwydd solet gydag allbwn o hyd at 50kW gan gynnwys y canlynol, ond
nid y rhain yn unig:

- tanau agored
- gwresogyddion ystafelloedd sy'n sefyll ar eu pen eu hunain

Gosod Simneiau Metel

- gwresogyddion ystafelloedd wedi'u mewnosod
- poptai sy'n sefyll ar eu pen eu hunain
- boeleri annibynnol
- stofiau sy'n rhyddhau gwres yn araf

Gosod Simneiau Metel

Datblygwyd gan	CITB
Fersiwn rhif	3
Dyddiad cymeradwyo	31 Rhag 2022
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Rhag 2027
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	CITB
RCU gwreiddiol	COSVR23
Galwedigaethau perthnasol	Crefftiau Adeiladu
Cyfres/Set	Galwedigaethau Simneiau (Adeiladu)
Geiriau Allweddol	Simneiau; Wedi'i uno'n fecanyddol; Ffliw metel